



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Gwneud Gwell Busnes

Cyfleoedd i gynhyrchwyr bwyd a diod Cymru mewn twf cyfrifol a gwyrdd

“Twf gwyrdd yw twf economaidd sy'n sicrhau defnydd gofalus o'n cyfoeth sylweddol o adnoddau naturiol fel y gallant barhau i'n cynnal ni mewn ffordd gymdeithasol gyfiawn, er budd pobl Cymru”.

Y busnes o ddod yn genedl gynaliadwy  
**Llywodraeth Cymru**

# Sbardunau'r farchnad

---

Mae Twf Gwyrdd yn gyfle arbennig i gwmnïau bwyd a diod gynhyrchu mwy o werthiant, lleihau costau, gwella proffidioldeb a sicrhau mwy o gyfran o'r frachnad drwy pwynt gwerthu unigryw. Gall Twf Gwyrdd sicrhau llwyddiant a thwf busnes hir dymor. Rhan hanfodol o hyn yw sicrhau effeithlonrwydd defnydd adnoddau, lleihau gwastraff wrth gynhyrchu, a thrwy hynny'n lleihau costau ac yn gwella proffidioldeb ymhellach.

Mae ymchwil yn dangos, er bod 81% o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn fwy tebygol o brynu gan frand gydag agwedd gadarnhaol at gynaliadwyedd, mae bron i hanner yn dweud nad ydynt yn ymwybodol o'r arferion cynaliadwy y mae brandiau wedi eu mabwysiadu.<sup>1</sup>

Yr her i'r busnesau hyn yw dangos a chyfleu eu rhinweddau cynaliadwyedd i ddefnyddwyr drwy eu marchnata, eu brandiau, eu cynnyrch a'u gwasanaethau.

**Mae gan brynwyr masnach rwymedigaethau o ran Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) i'w bodloni a byddant yn chwilio am gyflenwyr sy'n cefnogi'r nodau hyn.**

Mae Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) yn cael ei defnyddio'n eang gan brynwyr adwerthu, cyfanwerthu a phrynwyr gwasanaethau bwyd i werthuso eu heffaith ar gymdeithas a'r amgylchedd. I lawer, mae'n ymwneud â bod yn fusnes da a chael eu gweld i fod yn gyfrifol.

fel arfer yn mynd ymhell y tu hwnt i leihau effeithiau amgylcheddol, mae hefyd yn helpu sefydliadau ystyried eu cyfraniad i gymunedau lleol, eu harferion cyflogaeth, eu cysylltiadau â chyflenwyr a chwsmeriaid.

Drwy gyflawni amcanion CSR, gallai manwerthwyr, cyfanwerthwyr a gwasanaethau bwyd hyrwyddo eu gweithredoedd cadarnhaol i gwsmeriaid i gynhyrchu gwerth brand, i wahaniaethu oddi wrth eu cystadleuwyr ac i ddangos elw ar fuddsoddiad i gyfranddalwyr. Bydd y prynwyr hyn yn mynd ati i chwilio am gyflenwyr a allai eu helpu i fodloni eu hamcanion CSR.

Bydd gan gynhyrchwyr bwyd a diod sy'n gallu dangos eu rhinweddau cynaliadwyedd fantais fasnachol wrth werthu i brynwyr cyfanwerthu, manwerthu a gwasanaethau bwyd.

Mae ymagwedd pob sefydliad yn wahanol. Mae CSR

<sup>1</sup> Marketing Week, New demand driving sustainable food growth (29 Mai 2015) Ar gael ar-lein:

## Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario dros £70m ar fwyd, gyda £20m ohono yn cael ei wario ar gaffael bwyd ffres<sup>2</sup>

Ar hyn o bryd mae 63% y gwariant ar fwyd a diod yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gaffael nwyddau a gwasanaethau gan gynhyrchwyr a dosbarthwyr Cymreig<sup>3</sup>. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn anelu at sicrhau newid cadarnhaol drwy ei gwneud yn haws i gwmnïau llai gyflenwi'r sector cyhoeddus.

Mae caffael cyhoeddus yn cael ei lywodraethu gan Gyfraith Caffael yr UE a'r DU ac mae angen i bob corff cyhoeddus yng Nghymru ddangos eu bod yn dilyn proses deg ac agored wrth ddewis cyflenwyr. Yng Nghymru, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y manteision cymunedol y gallai eu penderfyniadau gael a sut y bydd hyn yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) wedi cael ei sefydlu i harneisio pŵer prynu'r sector cyhoeddus a'i wneud yn atebol am ei wariant ar nwyddau a gwasanaethau o Gymru. Bydd cynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru sy'n bodloni gofynion caffael ac yn dangos eu cyfraniad i gymunedau a chenedlaethau'r dyfodol mewn sefyllfa well i gystadlu am dendrau newydd.

**[nps.gov.wales](https://nps.gov.wales)**

[www.marketingweek.com/2015/05/29/new-demand-driving-sustainable-food-growth](http://www.marketingweek.com/2015/05/29/new-demand-driving-sustainable-food-growth) [6 Mawrth 2017]

<sup>2</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caffael Bwyd i'r Sector Cyhoeddus yn Gynaliadwy (Hyd. 2012) Ar gael ar-lein: [www.unpcdc.org/media/409470/wales-public-sector-food-procurement-2012.pdf](http://www.unpcdc.org/media/409470/wales-public-sector-food-procurement-2012.pdf) [6 Mawrth 2017]

<sup>3</sup> Arolwg o Brynu Bwyd yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru 2013, a nodwyd gan Strategic Marketing, Public Sector Food Purchasing in Wales Welsh Government (FMDD) Mai 2013



Drwy weithio gyda'u cadwyn gyflenwi gyfan, mae Puffin Produce yn gwneud eu gweithrediadau yn fwy cynaliadwy, effeithlon a phroffidiol. O'r cae i'r fforc, mae cynaliadwyedd yn ganolog i'w gwerthoedd, gyda'r cwmni yn gweithredu sawl cynllun ac arferion gweithio niferus i greu busnes cynaliadwy, yn ogystal â chyflogi swyddog cynaliadwyedd pwrpasol.

Fel busnes sy'n eiddo i dyfwr, maent yn darparu llwyfan gwerthu gwarantedig a phris teg ar gyfer yr holl gynnyrch a gyflenwir. Ym mis Awst 2016 ymunodd Puffin Produce â Cool Farm Alliance a dechreuodd ddefnyddio Offeryn Cool Farm ochr yn ochr â manwerthwr mawr. Mae'r offeryn yn galluogi tyfwyr i ddeall eu hól troed carbon unigol a sut yr oeddent yn cymharu â sectorau eraill yn y diwydiant.

Mae'r cwmni hefyd yn safle 'dim gwastraff', gyda'r holl gynnyrch a wrthodwyd yn cael ei werthu fel bwyd i stoc i ffermwyr lleol, gan sicrhau bod y cynnyrch a dyfir yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd yn y pen draw. Adroddir am ostyngiad parhaus mewn gwastraff ailgylchadwy a gwastraff na ellir ei ailgylchu ar y safle fel rhan o bolisi amgylcheddol Puffin Produce. Mae ynni yn cael ei fesur a'i fonitro ar y safle hefyd, gyda nod rhagweithiol i leihau'r defnydd o ynni.

Mae Puffin Produce wedi llofnodi Cytundeb Courtauld 2025, sy'n gweld y cwmni yn cydweithio â manwerthwyr bwyd a chwmnïau cynhyrchu mawr yn y gadwyn gyflenwi, i leihau gwastraff yn y diwydiant bwyd a diod o 20% dros ddeng mlynedd.

Yn ogystal â newidiadau mewnol, mae'r cwmni wedi datblygu newidiadau sy'n wynebu defnyddwyr, megis lleihau gwastraff ar lefel siopau drwy newid deunydd pecynnu, gan weithio gyda WRAP ar y cynlluniau Eich Gweithle Heb Wastraff a Caru Bwyd Casáu Gwastraff i annog staff a defnyddwyr i leihau eu gwastraff o gartrefi, a chymryd rhan yn y Cynllun Mawr i Gyfrif Glöynnod i annog bioamrywiaeth.

Mae'r cwmni'n cefnogi banciau bwyd lleol a chynlluniau gwobrwyo ieuencid, megis Gwobr Ymrwymiad i'r Amgylchedd Radio Sir Benfro ac mae'n cynnal 'Dydd Sul Agored ar y Fferm' yn flynyddol i annog defnyddwyr i ddysgu o ble y daw eu bwyd.

Mae'r cwmni wedi elwa ar gymorth gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig o Raglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, trwy raglen Arloesedd Bwyd Cymru, wedi derbyn cefnogaeth datblygu masnach bwrpasol ac mae wedi ymgymryd â'r Adolygiad Busnes Cynaliadwy.

[www.puffinproduce.com](http://www.puffinproduce.com)



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Partneriaeth  
Cydwasaethau  
Shared Services  
Partnership

Mae GIG Cymru, drwy gytundebau a osodir gan Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (NWSSP) yn gwario tua £20 miliwn ar gaffael bwyd a diod bob blwyddyn.

Yn ystod proses y tendr caffael mae'n ofynnol i gyflenwyr roi sicrwydd eu bod yn bodloni uchelgeisiau penodol o ran cynaliadwyedd sy'n cefnogi GIG Cymru i gydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a chanllawiau Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwadau (CIPS) ar fynd i'r afael â chaethwasiaeth modern yn y gadwyn gyflenwi, yn unol â'r Ddeddf Caethwasiaeth Modern.

Mae tîm gwasanaethau caffael Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru yn defnyddio offer i asesu a gwerthuso meini prawf penodol gan gynnwys yr Asesiad Risg Cynaliadwyedd, porth GwerthwchiGymru (gan gynnwys y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr) a phecyn cymorth Buddion i'r Gymuned Llywodraeth Cymru. Mae defnyddio'r offerynnau hyn yn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gyrchu cynaliadwy a chaffael cyfrifol wrth werthuso meini prawf ar gyfer dyfarnu contractau, gan gynnwys sut mae cyflenwyr yn cyfrannu at yr economi leol, trefniadau prisio

teg ar gyfer ffermwyr, ystyriaethau lles anifeiliaid a masnach foesebol. Er enghraifft, mae Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru wedi ymrwymo i'r Adduned Pysgod Cynaliadwy sy'n golygu bod yr holl bysgod a brynir yn cydymffurfio â safonau'r Cyngor Stiwardiaeth Forol.

Mae caffael cyhoeddus yng Nghymru yn datblygu'n gyflym mewn ymateb i'r angen i weithio ar y cyd, sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn prosesau a chyflawni allbynnau gwell o gyllidebau cyfyngedig. Mae Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) a sefydlwyd i alluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gydweithio'n agosach wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, ac mae cydweithio rhwng Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn galluogi trosoledd a graddfa i sicrhau cyrchu cynaliadwy, moesebol a chyfrifol ar gyfer GIG Cymru i gyd.

Mae'r sefydliad wedi elwa ar gymorth Llywodraeth Cymru drwy gynnal yr Adolygiad Busnes Cynaliadwy i adolygu eu cadwyn gyflenwi llaeth.

# Polisi, deddfwriaeth a rhaglenni cyflenwi

Mae'r gadwyn gyflenwi bwyd a diod yng Nghymru yn cyflogi 223,100 gyda throsiant o £16.8 bilion<sup>4</sup>

Mae bwyd a diod yn sector allweddol i Lywodraeth Cymru, sydd wedi gosod uchelgais i gynyddu sector bwyd a diod Cymru o 30% yn 2020, gan gynyddu trosiant y diwydiant i £7 biliwn.

Nid yw hyn yn golygu twf ar unrhyw gost. Mae Tuag at Dwf Cynaliadwy, Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020, yn rhagweld busnesau sydd yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol gyfrifol, ac yn cynhyrchu bwyd o ansawdd da a diogel i sicrhau gwelliannau yn iechyd a bywiogrwydd pobl Cymru.

Mae cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddiweddar yn ei gwneud yn gyfreithiol rwymol ar y sector cyhoeddus i sicrhau bod cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn elwa o economi ffyniannus, amgylchedd iach a gwydn a chymunedau bywiog, cydlynus. Ac mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sicrhau rheolaeth ar ei defnydd o adnoddau naturiol a thechnolegau carbon isel.

Amcangyfrifir bod allyriadau cyffredinol o weithgareddau sy'n dilyn giât y fferm y gadwyn fwyd yn gyfrifol am 10% o ôl-troed carbon Cymru<sup>5</sup>

Mae gweithgynhyrchu bwyd yn cynnwys sawl cam: cymryd deunyddiau crai o ffermydd, prosesu, storio, pecynnu a dosbarthu. Mae adnoddau naturiol, megis ynni a dŵr, yn cael eu defnyddio ar bob cam ac mae gwastraff bwyd a phecynnu yn codi drwy gydol y broses. Gallai hyn gynhyrchu nwyon tŷ gwydr niweidiol sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.

Mae addasu i newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn hanfodol i warchod adnoddau naturiol sy'n galluogi sector bwyd a diod Cymru i weithredu. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bwriad i symud ymlaen tuag at nod o leihau allyriadau tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050 ac i barhau i hyrwyddo Twf Gwyrdd fel blaenoriaethau allweddol yn Symud Cymru Ymlaen 2016-2021.

Ond mae Twf Gwyrdd yn ymwneud â llawer mwy na materion amgylcheddol yn unig. Mae'r sector bwyd a diod yn ffurfio piler canolog o economi wledig Cymru, gan ddod â swyddi i gymunedau gwledig ac yn cynnal rôl hanfodol yn y diwylliant Cymreig.

<sup>4</sup> ONS Hawlfraint y Goron, a nodwyd gan Brookdale Consulting, perfformiad economaidd sector bwyd a diod Cymru yn 2016. Ar gael ar-lein: [businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/fooddrink/files/The%20Value%20of%20Welsh%20Food%20and%20Drink%20-%20Sub%20Sector%20Sheets\\_en.pdf](https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/fooddrink/files/The%20Value%20of%20Welsh%20Food%20and%20Drink%20-%20Sub%20Sector%20Sheets_en.pdf) [6 Mawrth 2017]

<sup>5</sup> Tuag at Dwf Cynaliadwy, Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020, t.33

THE WELSH WHISKY COMPANY  
PENDERYN  
FAMILY



## Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau sy'n gweithredu yn y sector prosesu a gweithgynhyrchu bwyd yn Fusnesau Bach neu Ganolig, gyda llai na 10% o'r busnesau'n cael eu hystyried yn gwmnïau mawr (250+ o weithwyr)<sup>6</sup>

Mae cwmnïau micro, bach a chanolig eu maint (SMEs) yn cyfrif am dros 90% o'r sector bwyd a diod yng Nghymru. I lawer o gwmnïau bach gallai bod yn gyfrifol ac yn wyrdd ymddangos fel baich ar ben yr heriau o ddydd i ddydd o redeg busnes.

Un rhwystr i lawer o fusnesau bach a chanolig bwyd a diod yw cael mynediad i'r cyllid, sgiliau ac adnoddau i asesu, gweithredu a chyfathrebu eu gwerth amgylcheddol a chymdeithasol drwy eu marchnata, brandiau, cynnyrch a gwasanaethau.

Mae cyfuniad unigryw o bolisiau blaengar gan Lywodraeth Cymru, deddfwriaeth a rhaglenni cyflenwi sy'n gwobrwyo busnes cynaliadwy a thwf gwyrdd eisoes yn helpu cynhyrchwyr bwyd a diod, gyda llawer mwy yn barod i fanteisio.

- Bwyd a Diod Cymru yw'r pwynt mynediad cyntaf i fusnesau bwyd a diod i ystod eang o gymorth, gan gynnwys cymorth datblygu masnach pwrpasol a chyfeirio cwmnïau at grantiau cyfalaf a refeniw. [businesswales.gov.wales/foodanddrink/](https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/)
- Mae Arloesi Bwyd Cymru yn darparu cymorth technegol a gweithredol ar gyfer cynhyrchwyr bwyd o 3 canolfan bwyd ragorol a leolir yng Nghaerdydd, Ceredigion ac Ynys Môn. Maent yn darparu gwasanaeth unigryw yn y DU, yn

ymwneud ag ystod o faterion datblygu cynhyrch newydd gan gynnwys cyrraedd safonau Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC) , Cymeradwyaeth i Gyflenwyr Diogel a Lleol (SALSA), labelu, oes silff a pheccynnu.

[foodinnovation.wales](https://foodinnovation.wales)

- Mae'r Adolygiad Busnes Cynaliadwy (SBR) yn offeryn hunanasesu ar-lein ar gyfer BBaCh bwyd a diod i osod nodau ac olrhain cynnydd tuag at fod yn gyfrifol ac yn wyrdd, ac i brynwyr masnach fonitro eu cyflenwyr. Cafodd y gwaith datblygu ei ariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Gynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi, Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-14. [sbreview.co.uk](https://sbreview.co.uk)
- Mae Busnes Cymru yn darparu porth cyffredin i roi cefnogaeth a buddsoddiad i gwmnïau. Mae hefyd yn eu cyfeirio at raglenni amgylcheddol fel Courtald 2025, cytundeb y diwydiant i leihau gwastraff bwyd yn y gadwyn cyflenwi bwyd, a'r Siarter Datblygu Cynaliadwy, sydd ar hyn o bryd yn disgwyl adolygiad gan Lywodraeth Cymru. Cytundeb gwirfoddol yw hwn ar gyfer pob sefydliad Cymreig yng Nghymru i annog arferion cyfrifol a gwyrdd. [businesswales.gov.wales](https://businesswales.gov.wales)

Mae Cronfa Busnes Cymru newydd, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, yn cael ei chreu a fydd yn cynnig gwerth £136m o atebion ariannu hyblyg i fusnesau wedi'u lleoli yng Nghymru, gan eu helpu i gyflymu eu cynlluniau ar gyfer buddsoddi a thwf. Bydd hyn yn cael ei ategu gan sefydlu Banc Datblygu Cymru a fydd yn sicrhau gwell mynediad at gyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig ac yn cynyddu buddsoddiad mewn busnesau yng Nghymru yn sylweddol.

<sup>6</sup>Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020, t. 22

Mae Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor yn cynnwys tair pysgodfa (Deepdock Ltd, Myti Mussels Ltd ac Extramussels Ltd) sydd ar y cyd yn cynaeafu 10,000 o dunelli o gregyn gleision bob blwyddyn o Safle Morol Ewropeaidd Y Fenai a Bae Conwy. Mae'r cregyn yn ffurfio mwy na 50% y cregyn gleision a ffermir ac a gynhyrchir yn y DU ac mae'r safle yn cael ei gydnabod fel yr ardal ffermio cregyn gleision fwyaf cynhyrchiol yn y wlad.

Cafodd cregyn gleision eu casglu yma ers amser y Rhufeiniaid oherwydd yr amgylchedd morol cynhyrchiol iawn. Ond dyfarnwyd statws cadwraeth i'r ardal yn llawer mwy diweddar ynghyd â mynediad rheoledig i wely'r môr gan alluogi'r cregyn gleision i gael eu trin yn fasnachol mewn ffyrdd amgylcheddol cadarn. Mae'r ardal yn holl bwysig am ei bod yn cynnal bywoliaeth i 20 o bysgotwyr mewn diwydiant heriol.

Ym 1962 sicrhawyd gorchymyn pysgodfa ar gyfer ardal ddiffiniedig o 703 ha, gan ddarparu hawl i eiddo penodol ar wely'r môr sy'n caniatáu i bysgod cregyn gael eu trin yn hytrach na'u casglu. Yn 2004 cafodd ardal y bysgodfa ei chynnwys o fewn safle Morol Ewropeaidd y

Fenai a Bae Conwy, cydnabyddiaeth o gynaliadwyedd cynhenid y gweithgareddau o fewn y Gorchymyn, ond darparodd hefyd ar gyfer set wahanol o feini prawf i asesu hyn yn ei erbyn, gan ddangos y gallai'r cregyn gleision gael eu trin yn fasnachol mewn ffyrdd amgylcheddol gadarn.

Yn 2010 hon oedd y bysgodfa a gryfhawyd gyntaf yn y byd i ennill achrediad y Cyngor Stiwardiaeth Forol (MSC) gan roi cydnabyddiaeth fyd-eang iddynt am bysgodfa gynaliadwy a reolir yn dda. Maent yn dod â chregyn ifainc o ardaloedd lle na fyddent yn goroesi, yn ôl i'r Fenai, lle maent yn cael eu gosod ar wely'r môr am 18-24 mis a lle cefnogir eu twf naturiol nes iddynt gyrraedd y maint a'r ansawdd gorau posibl ar gyfer y farchnad.

Mae dros 90% o'u daliad yn cael ei allforio i ddefnyddwyr Ewropeaidd, ond yn y 18 mis diwethaf mae rhywfaint o'r cynnyrch hwn wedi cael ei ogwyddo tuag at gyflenwi'r farchnad ddomestig o fewn Cymru a thu hwnt, a disgwylir i hyn gynyddu.

Mae'r cwmni wedi elwa o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Forol a Physgodfeydd Ewrop, ac mae wedi derbyn cymorth pwrpasol i ddatblygu masnach.





Mae Tŷ Tanglwyst Dairy yn fferm laeth deuluol sy'n cynhyrchu llaeth, hufen a menyn ac yn gwerthu i gwsmeriaid ar draws De Cymru.

Yn arwyddocaol, maent yn un o'r ychydig o ffermydd llaeth annibynnol sydd ar ôl yng Nghymru sy'n potelu ac yn gwerthu eu llaeth eu hunain. Maent yn cynhyrchu tua 1 miliwn litr o laeth bob blwyddyn. Mae hwn yn cael ei brosesu yn eu llaethdy sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ar y fferm a'i werthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd drwy rowndiau dosbarthu llaeth i garreg y drws, drwy gyfrwng fflyd o faniau llaeth ac, i amrywiaeth o gwsmeriaid manwerthu, cyfanwerthu a gwasanaethau bwyd.



Mae gweithredu fel hyn ers 2006 wedi golygu nad ydynt mwyach yn dibynnu ar gael eu llaeth wedi ei brosesu gan eraill. Mae hyn yn golygu nad yw tanceri mwyach yn casglu eu llaeth, ac mae hyn yn lleihau costau ac yn dileu'r angen am drafnidiaeth mawr ar y ffyrdd. Mae hyn yn byrhau'r gadwyn gyflenwi ac yn cynyddu'r oes silff i'r cwsmer.

Yn ogystal, maent wedi datblygu marchnadoedd newydd i hufen Tŷ Tanglwyst, un o sgil-gynhyrchion eu llaeth. Mae hyn yn atal gwastraff bwyd ac yn sicrhau'r gwerth mwyaf o'r broses weithgynhyrchu. Mae gwres yn cael ei ddarparu gan foeler biomas ac yn ddiweddar maent wedi gosod paneli solar ar y safle, sy'n lleihau eu dibyniaeth ar ynni sy'n deillio o danwydd ffosil.

Mae hyrwyddo'r arferion cynaliadwy hyn a tharddiad bwyd yn hanfodol iddyn nhw o ran datblygu teyrngarwch i'r brand a chyfathrebu eu stori i gwsmeriaid. Mae'r ymdrechion yn talu ar eu canfed gyda'r cwmni yn ddiweddar wedi ennill nifer o gontractau gwerthfawr i gyflenwi Meithrinfeydd lleol ac wedi sicrhau twf o 7% yn y cynnyrch maent yn ei gyflenwi i garreg y drws rhwng 2016-2017.

Mae'r cwmni wedi elwa ar gymorth Llywodraeth Cymru drwy raglen Arloesi Bwyd Cymru, wedi derbyn cefnogaeth pwrpasol ar gyfer datblygu masnach ac mae wedi ymgymryd â'r Adolygiad Busnes Cynaliadwy.

[tytanglwystdairy.com](http://tytanglwystdairy.com)

# Cyfleoedd Busnes

---

Mae cynhyrchwyr bwyd a diod sy'n gallu dangos a chyfathrebu eu cymwysterau cyfrifol a gwyrdd yn gallu manteisio ar y galw cynyddol am fwyd a diod a gynhyrchwyd yn gynaliadwy.

Mae prynwyr o'r sectorau adwerthu a chyfanwerthu, y gwasanaeth bwyd a'r sector cyhoeddus angen cyflenwyr sy'n gallu eu helpu i gwrdd â'u CSR ac amcanion deddfwriaethol yn gynyddol. Tra bod prynwriaeth foesebol yn parhau i sbarduno twf.

Bydd cwmnïau sy'n hyrwyddo arferion cyfrifol a gwyrdd yn aml yn cael eu harchwilio gan gwsmeriaid, defnyddwyr a gweithwyr felly mae'n hanfodol gallu ategu unrhyw honiadau a wneir. Gwneir hyn drwy osod nodau, olrhain cynnydd a chadw cofnod o gyraeddiadau.

Gall cynhyrchwyr bwyd a diod Cymru sicrhau mantais fasnachol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- Tarddiad - mae gwybod o le mae bwyd yn tarddu yn bwynt gwerthu unigryw i gyflenwyr yng Nghymru sy'n cynnig y gallu i olrhain, i'r busnesau hynny sy'n masnachu yn lleol neu sy'n cynnig bwyd lleol wedi ei wneud o gynhwysion a ryseitiau traddodiadol. Mae ofnau diweddar am fwydydd wedi tynnu sylw at risgiau cynhenid mewn cadwyni cyflenwi bwyd byd-eang. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i fwyd iach sy'n dod o ffynonellau cynaliadwy.

**Mae Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) yn statws a ddyfernir gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo cynnyrch bwyd a enwir yn rhanbarthol sydd ag enw da neu nodweddion a nodwyd sy'n benodol i'r ardal honno.**

**Dyfarnwyd statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig i Gig Eidion Cymru yn 2002 ac i Gig Oen Cymru yn 2003. Mae hyn yn gwarantu dilysrwydd ac integriti'r brand. Manteisir i'r eithaf ar y dirwedd naturiol gyda thechnegau ffermio traddodiadol wedi eu profi i gynhyrchu cig oen a chig eidion i safon uchel.**

**Mae Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod gan Gig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru holrhain llawn, gan gydnabod tarddiad a rhinweddau unigryw y cynnyrch. Dim ond Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig Cig Oen Cymru a Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig Cig Eidion Cymru y gellir gwarantu eu bod yn dod o ŵyn neu wartheg a anwyd ac a fagwyd yng Nghymru, ac sydd wedi cael eu lladd a'u prosesu mewn lladd-dai neu safleoedd torri cig cymeradwy gan HCC.**

**Ffynhonnell: Hybu Cig Cymru**

- Gwastraff - Bydd cynyddu diddordeb defnyddwyr mewn atal gwastraff bwyd yn dueddiad byd-eang yn 2017<sup>7</sup>. Mae datblygiadau arloesol o ran prosesu a pheycynnu sy'n ymestyn oes silff, gan wneud defnydd o wastraff bwyd na ellir ei osgoi a gwerthu cynnyrch di-siâp am bris isel yn enghreifftiau lle rhagwelir twf mewn gwerthiant. Ond mae gan wastraff oblygiadau llawer ehangach. Mae nifer cynyddol o fanciau bwyd yn ein hatgoffa'n rhybuddiol o'r rheswm pam mae'n rhaid i ni beidio gwastraffu bwyd ac mae'n debygol y bydd mentrau, fel aildosbarthu, sy'n mynd i'r afael â thlodi bwyd yn cael derbyn da.

<sup>7</sup> Mintel, Global Food and Drink Trends 2017



- Eco arloesedd - wrth i filiau cyfleustodau barhau i godi bydd cwmnïau sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon, megis dŵr ac ynni, neu sy'n buddsoddi mewn technolegau ac ynni adnewyddadwy newydd, yn elwa ar arbedion cost yn eu prosesau. Gallai mesur olion troed carbon a dŵr i fonitro llygredd wella enw da busnesau. Gall cyrchu bwyd o gynhyrchwyr sydd yn cymryd rhan mewn arferion rheoli cadarnhaol a chydweithredu gyda busnesau eraill i brynu mewn swmp, rhannu cynhyrchu neu adnoddau logistaidd arwain hefyd at fanteision i'r ddwy ochr.
- Arloesi cymdeithasol - busnesau sydd â phwrpas yw'r rhai sy'n edrych y tu hwnt i elw yn unig. Gallai hyn fod yn ddeniadol i ddefnyddwyr gyda gwerthoedd a rennir. Mae cymryd rhan mewn cymunedau lleol, cefnogi pobl sy'n gwynebu amgylchiadau anodd a gweithio gyda chyflenwyr cyfrifol yn ffyrdd y gall cynhyrchwyr bwyd Cymru wneud i hyn ddigwydd.
- Labeli Moesegol - mae labeli megis y Cyngor Stiwardiaeth Forol, Masnach Deg, Cymdeithas y Pridd a'r Tractor Coch yn dangos achrediadau a safonau mewn pysgota môr, cyrchu, deunydd organig a lles anifeiliaid yn y drefn honno. Mae achredu trwy'r Sefydliad Cyflog Byw hefyd yn dangos bod busnes wedi'i ymrwymo i dalu Cyflog Byw a gaiff ei gyfrifo'n annibynnol.



# fruitapeel Juice Limited

Manufacturers of Fruit Juices and Smoothies

Mae Fruitapeel, sy'n cyflogi 100 o staff o'u safle gweithgynhyrchu sudd ffres yn Llantrisant, De Cymru, wedi dyblu mewn maint yn y flwyddyn ddiwethaf i gyrraedd trosiant o £17 miliwn, gan greu 50 o swyddi newydd.

Mae'r cwmni hwn sydd wedi ennill gwobrau yn cynnig proses newydd o dynnu'r sudd o ffrwythau ar wasgedd uchel sy'n dileu bacteria gan arwain at oes silff estynedig o tua 100% i sudd ffres wedi ei becynnu. Mae oes silff hwy yn dod â manteision amgylcheddol cynhenid trwy atal gwastraff bwyd, ac yn defnyddio llai o ynni o gymharu â phasteureiddio sy'n defnyddio mwy o ynni i wresogi'r sudd. Trwy beidio â gwresogi'r sudd mae'n cadw llawer mwy o'r fitamin C iach o sudd sydd wedi'i wasgu'n ffres.

Nid oes unrhyw wastraff yn cael ei gynhyrchu o'r ffrwyth wedi'i brosesu sy'n cael ei anfon fel sgil-gynnyrch i'w ddefnyddio yn y diwydiant pobi neu fel porthiant anifeiliaid. Mae deunydd pecynnu sudd ffres yn anodd ei ailgylchu ac ar hyn o bryd maent

yn gweithio gyda phartner, ar garton sudd cwbl ailgylchadwy, a fyddai'n lleihau gwastraff pecynnu yn sylweddol.

Yn allweddol i'w llwyddiant mae eu cyfleuster YaD mewnol sy'n datblygu cynhyrchion sudd newydd ar gyfer cwsmeriaid rhyngwladol ar draws y sectorau manwerthu, cyfanwerthu a'r gwasanaeth bwyd. Yn sail i hyn mae buddsoddiad £5 miliwn mewn technoleg arloesol ac maent wedi derbyn £328,000 o gymorth ariannol gan gynllun cyllid busnes ad-daladwy Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi eu galluogi i wneud a pheycynnu llaeth almon a sudd llysiau a ffrwythau o dan yr un to.

Mae'r cwmni wedi elwa ar gymorth Llywodraeth Cymru drwy raglen Arloesi Bwyd Cymru a derbyn cefnogaeth bwrpasol i ddatblygu masnach.

# THE PARSNIPSHIP

Mae The Parsnipship wedi bod yn arloesi gyda bwyd llysieuol ers dros 10 mlynedd.

Gan weithredu o gegin gynhyrchu ym Mro Ogwr, mae'r cwmni yn profi cyfnod o dwf sylweddol sydd eisoes wedi arwain at gynnydd blynyddol o 150% yn eu gwerthiannau i gwsmeriaid cyfanwerthu ers Chwefror 2016. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu o 75% arall yn 2017.

Mae cael eu cydnabod fel busnes moesegol yn ganolog i'w strategaeth brand. Mae creu deialog â'u cwsmeriaid yn seiliedig ar eu harferion cynaliadwy wedi bod yn hanfodol i ennill contractau cyfanwerthu newydd.

Gydag archebion mwy o faint a mwy rheolaidd yn cael eu derbyn mae'r cwmni wedi llwyddo i gyflwyno mesurau i drin adnoddau yn fwy effeithlon yn eu llinell gynhyrchu sydd yn ei dro wedi arwain at arbedion cost a manteision amgylcheddol drwy leihau gwastraff bwyd ac ynni.

Mae'r cwmni yn parhau i arloesi ac yn datblygu deunydd pacio amgylcheddol gyfeillgar ar gyfer

cynnyrch adwerthu newydd, wrth arallgyfeirio i werthu ar-lein a chynnal eu presenoldeb mewn gwyliau a marchnadoedd ffermwyr.

Mae'r cwmni wedi elwa ar gymorth Llywodraeth Cymru drwy raglen Arloesi Bwyd Cymru, wedi derbyn cefnogaeth bwrpasol i ddatblygu masnach ac wedi ymgymryd â'r Adolygiad Busnes Cynaliadwy.

